# CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 14eg Mehefin, 2021**, drwy gyfrwng 'zoom' o 7.30 p.m. hyd 8.25 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Dylan Parry Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Elin Hughes, Michael Strain, Carys E. Williams, Glenys Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Y Cynghorydd Sir)
Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Gwenan Griffith, Ifor Owen, Sion Williams

## 16. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

**Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

## 17. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni ddatganwyd buddiant personol mewn unrhyw eitem oedd i'w drafod yn y cyfarfod.

## 18. CADARNHAU COFNODION

**Cyflwynwyd** a chadarnhawyd cofnodion y Cyngor 10fed Mai, 2021. Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Michael Strain

**Materion yn codi**

**(a)** ***Eitem 10 Cadarnhau Cofnodion (Materion yn Codi)***
***cymal (b) 108 – Materion Ffyrdd a Llwybrau***
Gohiriwyd er cael adroddiad gan Y Cynghorydd Carys H. Evans.
***Eitem 112 cyfarfod wyneb yn wyneb***
***Cyflwynwyd*** neges gan Un Llais Cymru ynglyn a chyfarfod wyneb yn wyneb fel ganlyn:
"Mae 'gweithgaredd wedi'i drefnu dan do' yn cael ei alw erbyn hyn yn "gyfarfod rheoledig a gynhelir yn gyfan gwbl neu'n rhannol dan do" ac yn yr un modd cafodd "gweithgaredd wedi'i drefnu yn yr awyr agored" ei ail-enwi erbyn hyn yn "gyfarfod rheoledig a gynhelir yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn yr awyr agored."
Er gwaetha'r newid yn yr enw, mae'r rheoliadau'n cadarnhau fod rhaid i gyfarfod rheoledig boed dan do neu yn yr awyr agored gael ei drefnu gan

- fusnes
- corff cyhoeddus (gan gynnwys cynghorau cymuned) neu sefydliad elusennol, llesiannol, addysgol neu haelionus
- clwb neu sefydliad gwleidyddol, neu
- gorff llywodraethu cenedlaethol chwaraeon neu weithgaredd arall

Felly, wrth ystyried pa weithgareddau all ddigwydd y man cychwyn yw a yw'r trefnydd yn perthyn i un o'r categorïau.

Yn syml iawn, os nad ydynt yn bodloni'r meini prawf uchod nid oes ganddynt hawl cyfreithiol i drefnu'r gweithgaredd. Am y rheswm hwnnw ni ellir cynnal

digwyddiadau cymdeithasol teuluol megis partïon pen-blwydd, partïon disgwyl babi ac ati gan nad yw rhieni, er enghraifft, yn drefnydd derbyniol.

Os yw'r trefnydd yn perthyn i un o'r categorïau derbyniol mae'n rhaid iddynt greu asesiad risg a dilyn gofynion Llywodraeth Cymru er mwyn cymryd pob cam rhesymol i atal y feirws rhag lledu (hylendid dwylo, ymbellhau cymdeithasol, gorchuddion wyneb, cofnodi manylion cyswllt cwsmeriaid lle'n briodol ac ati) ac mae'n rhaid iddynt ddilyn unrhyw ganllawiau penodol a gyhoeddir neu a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru sy'n berthnasol i'r gweithgaredd. Ni all unrhyw un sy'n bresennol mewn cyfarfod rheoledig yfed alcohol.
Ar lefel rhybudd 2 y nifer uchaf o bobl all fod yn bresennol mewn cyfarfod rheoledig yw 30 o bobl os yw'n gyfan gwbl neu'n rhannol dan do a 50 o bobl os yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn yr awyr agored. Nid yw unrhyw berson o dan 11 neu unrhyw bobl sy'n gweithio, neu'n darparu gwasanaethau gwirfoddol, fel rhan o'r gweithgaredd yn cael eu cyfrif yn rhan o'r uchafswm. Ar lefel rhybudd 1 bydd y niferoedd hyn yn codi i 50 dan do a 100 yn yr awyr agored. Dylid pwysleisio fod y niferoedd hyn yn uchafsymiau ac nid yn dargedau. Mae'r angen am ymbellhau cymdeithasol yn parhau, ac o'r herwydd bydd angen i ymddiriedolwyr / pwyllgorau rheoli canolfannau cymunedol ystyried beth sy'n gapasiti diogel ar gyfer unrhyw ystafelloedd a ddefnyddir. Rhaid i nifer y bobl sy'n bresennol mewn cyfarfod rheoledig gyfateb i gapasiti diogel yr ystafell neu 30 o bobl pa un bynnag yw'r ffigwr isaf. Mae'n rhaid i hyn ystyried unrhyw un nad ydynt yn cael eu cyfrif fel rhan o'r uchafswm o 30 ond sydd yn dal yn gorfforol bresennol h.y. gweithwyr, gwirfoddolwyr neu blant dan 11."
**Penderfynwyd** yn wyneb y sylwadau uchod fod y Cyngor am symud ymlaen i gyfarfod wyneb yn wyneb gan ddilyn y rheolau yn ymwneud a COVID. Y cyfarfodydd i'w cynnal yng Nghanolfan Bryncroes a Neuadd Goffa Sarn dros dro gan ddefnyddio'r ddwy Festri yn nes ymlaen pan fydd oll o'r rheoliadau wedi eu codi.

***Eitem 110 – Meddygfa Rhydbach, Botwnnog***
**Adroddodd** y Clarc nad oedd wedi derbyn unrhyw ymateb gan Mr. Dave Shaw, Rheolwr Meddygfa Rhydbach
**Penderfynwyd**
Fod y Clarc i ffonio Mr. Shaw er ceisio trefnu cyfarfod wyneb yn wyneb yn fuan.
Ysgrifennu at Mabon ap Gwynfor, Aelod o Senedd Cymru dros Dwyfor/Meirionnydd, yn gofyn a oes ganddo wybodaeth beth fydd sefyllfa'r gawasanaeth iechyd yng Nghymru yn ystod y tair/bedair mlynedd nesaf.
Fod cyfarfod arbennig o'r Cyngor i'w drefnu os cyfyd unrhyw fater ynglyn a'r gwasanaeth yn ystod y mis.

***Eitem 12 – Mater Ffyrdd a Llwybrau***
**Cyflwynwyd** ymateb Iwan ap Trefor, Uwch Beiriannydd Traffig Cyngor Gwynedd:
"Gyda pherthnasedd i fodurwyr sy'n goryrru trwy'r ddau lleoliad sydd wedi nodi yn Sarn Mellteyrn, wrth gwrs mae hyn yn peri pryder i ni fel Cyngor a hoffwn eich sicrhau ein bod yn deall yn iawn ddifrifoldeb y sefyllfa a'r goblygiadau posibl sy'n deillio o yrru anystyriol.

Hoffwn eich sicrhau y byddwn yn cynnal asesiad llawn o'r sefyllfa, trwy osod

offer casglu data cyflymder yn y lleoliad priodol. Yn dilyn yr asesiad, byddem yn anelu at weithio gyda'r Heddlu lleol ac eich aelodau i geisio fynd i'r afael â'r materion goryrru yn y pentref."

Yn y cyswllt hwn cyfeiriodd aelod at y ffaith fod nifer o fodurwyr yn defnyddio eu ffonau symudol wrth deithio i fyny ac i lawr Allt Mellteyrn, ac er fod hyn yn hollol anghyfreithlon, gallai hyn fod yn beryglus i ddefnyddwyr y ffordd.

**Penderfynwyd**

1) Nodi atebiad Iwan ap Trefor.
2) Anfon y gŵyn ynglyn a'r defnydd o ffonau symudol i'r Arolygwr yng ngorsaf Heddlu Pwllheli.

## 19. CEISIADAU CYNLLUNIO

**Cyflwynwyd** cais C21/0482/32/LL – sefydlu safle gwersylla amgen tymhorol, tirlunio a gwaith cysylltiedig fel rhan o gynllun arallgyfeirio ar fferm – Pen y Bryn Lleyn, Brynmawr (ail gyflwyniad o gais C20/0935/32/LL).

**Penderfynwyd** cefnogi'r cais.

## 20. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU

**Penderfynwyd** anfon y materion a ganlyn i'r Adran Ffyrdd, Cyngor Gwynedd:

a) Y ffordd o Trefaes (teulu Brunelli) am Tyddyn Hen mewn cyflwr gwael a thyllau dwfn ar ei hyd. Deallir fod y tyllau yn cael eu cau ond cyn gynted y daw glaw mae'r tarmac yn cael ei gario i ffwrdd. Angen sylw.
b) Yr allt i lawr o Fferm Mellteyrn i'r pentref, modurwyr a gyrrwr tractorau yn ei chael yn anodd i weld i droi am Gefn Amwlch oherwydd fod y coed yn rhwystro'r gweledìad ac felly yn creu perygl i fodurwyr sy'n gyrru i lawr y ffordd.
c) angen barbio'r tyfiant sydd ar y cyffyrdd – soniwyd am y diffyg gweledìad sydd ym Mhedair Croeslon, Bryncroes, pan yn ceisio dod i'r ffordd fawr gyda thractor.

## 20. MATERION IECHYD

Nid oedd unrhyw fater wedi dod i sylw'r Cyngor i'w anfon ymlaen at Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.

## 21. AWDURDOD I DALU

**Penderfynwyd** awdurdodi'r taliad a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Y Clarc | £372.75 (siec 200731) |
| (Bu'r Clarc yn yr ystafell aros tra bu'r Cyngor yn trafod ei chyflog). | |
| HMRC | £ 93.00 (siec 200732) |
| Cradur.com – gwe-letya blynyddol a chynhaliaeth | £ 39.00 (siec 200733) |

## 22. ARCHWILIO'R CYFRIFON

**Cyflwynwyd**

(a) adroddiad yr Archwiliwr Mewnol (copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen). 'Roedd yr adroddiad yn glir ond am y ffaith fod "methiant i arddangos 'datganiad o daliadau wnaed i Aelodau' ar wefan y Cyngor ar gyfer 2019/20. Mae'n ofynnol i arddangos y wybodaeth, hyd yn oed os nid oes taliad wedi ei wneud." Ymddiheurodd y Clarc am y methiant ond yn dilyn galwad ffôn gyda'r Archwiliwr ei bod wedi ei roi ar y wefan yn syth, derbyniodd yr Archiliwr y wybodaeth.
(b) ffurflen flynyddol i'w hanfon ymlaen i'r Archwilwyr Allanol.

**Penderfynwyd**

(1) Derbyn adroddiad yr Archwiliwr Mewnol a nodi ei sylwad.

(2) Derbyn y ffurflen flynyddol fel y'i cyflwynwyd i'r Cyngor a nodi fod cwestiwynau 1-8 ar Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan1) wedi eu hateb yn 'Do' a chwestiwn rhif 9 yn 'amh.'
(3) Derbyn y wybodaeth a nodwyd ar dudalen 4 ' Datganiad Llywodraethu Blynyddol.'
(4) Awdurdodi'r Cadeirydd i arwyddo'r ffurflen ar ran y Cyngor fel cofnod cywir o'r cyfrifon.

23. **YMGYNGHORIAD GORCHYMYND GWARCHOD MANNAU CYHOEDDUS (GDMC): RHEOLI CWN**
**Rhoddwyd** gwybodaeth am ddogfen oedd i'w gweld arlein
www.gwynedd.llyw.cymru/ymgynghoriadrheolicwn
Nodwyd fod yr aelodau i gyflwyno eu sylwadau ar y ddogfen drwy lenwi holiadur arlein pe dymunir.

24. **DINASYDDION YR UE AC AEE-EFTA SY'N BYW YNG NGHYMRU**
**Cyflwynwyd** llythyr Edmund Sides, Cymru dros Ewrop – copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen.
**Penderfynwyd** nodi'r llythyr.

25. **DIWRNOD Y GIG – 5ed GORFFENNAF, 2021**
**Nodwyd** er i wybodaeth gael ei roi yn Llanw Llyn dros y misoedd diwethaf o dan y pedair ardal ac hefyd hysbysebion mewn mannau cyhoeddus, ni dderbyniwyd unrhyw awgrym ar sut i ddathlu'r diwrnod arbennig yma.
**Penderfynwyd** nodi'r sefyllfa.